COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

# Ymgynghorydd Strategol (Iechyd a Gofal)

**Manyleb swydd, swydd ddisgrifiad a manyleb person**

**Hydref 2025**

# Manyleb Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Ymgynghorydd Strategol (Iechyd a Gofal) |
| **Ystod Cyflog:** | £58,225 (Pwynt sbinol 44) |
| **Lleoliad:** | Aberystwyth, Caernarfon, Caerdydd neu Gaerfyrddin<br>*Mae hyblygrwydd o ran lleoliad fel rhan o'n dull gweithio hybrid* |
| **Statws Cyflogaeth:** | Rhan-amser (0.6 FTE), cyfnod penodol hyd at 31 Ionawr 2027<br>*Mae'r Coleg yn barod i ystyried secondiad ar gyfer y rôl yma* |
| **Atebol i:** | Cyfarwyddwr Addysg Uwch ac Ysgrifennydd |
| **Staff â chyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt:** | 0 |
| **Dyddiad cau ceisiadau:** | 14:00, 20 Hydref 2025 |
| **Dyddiad Cyfweliad:** | 3 Tachwedd 2025 |

## Y Coleg – amdanom ni

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog. Er mwyn darganfod mwy am y Coleg ewch i: www.colegcymraeg.ac.uk a dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

## Y swydd

Mae'r Coleg yn chwilio am Ymgynghorydd Strategol rhan-amser i arwain ar weithrediad a datblygiad ein strategaeth academaidd ym maes Iechyd a Gofal yn benodol.

Bydd y rôl yn ganolog i ymdrechion y Coleg i gryfhau a chyfeirio'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector Iechyd a Gofal, gan sicrhau bod ein strategaeth academaidd yn y maes allweddol hwn yn ymateb i anghenion newidiol y sector ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynlluniau cenedlaethol.

Er bod ffocws penodol y rôl ar faes Iechyd a Gofal, bydd cyfleoedd i gyfrannu at waith ehangach y Coleg ar draws y sector ôl-16, gan gynnwys datblygu polisi, cydweithio traws-sectorol, pontio a dilyniant, ymchwil, a datblygu darpariaeth strategol gan gynnwys datblygu'r gweithlu.

Bydd deiliad y swydd yn arwain ar gynllunio strategol, dadansoddi tueddiadau ac anghenion academaidd, a meithrin cydweithio â phartneriaid allanol i sicrhau parhad, ansawdd ac arloesedd yn y

ddarpariaeth. Bydd y rôl yn cynnwys cyfrannu at ddatblygiad strategaethau'r Coleg ym maes Iechyd a Gofal ac addysg drydyddol, gan sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei chynllunio'n effeithiol ac yn cael ei gweithredu'n strategol.

Bydd yr ymgynghorydd yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad y gwaith academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gyfrannu at gynyddu'r niferoedd sy'n astudio drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog ac at y strategaeth ymchwil. Bydd hefyd yn hwyluso cydweithio traws-sectorol ac yn meithrin perthnasau strategol gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau effaith barhaol ar y gweithlu a'r ddarpariaeth academaidd. Bydd y rôl hon yn ganolog i ymdrechion y Coleg i ddatblygu gweithlu cyfrwng Cymraeg yn y sectorau blaenoriaeth.

## Gwneud Cais

Dylid cyflwyno ceisiadau trwy gwblhau'r ffurflen gais a'r ffurflen fonitro cyfle cyfartal sydd ar wefan y Coleg (Swyddi | Coleg Cymraeg Cenedlaethol).Ni fydd ceisiadau trwy CV yn dderbyniol.

Dylid cyfeirio pob cais i Adnoddau Dynol drwy e-bost at adnoddaudynol@colegcymraeg.ac.uk a rhaid i bob cais gyrraedd **erbyn 14:00 ar 20 Hydref 2025**.

Gwahoddir y sawl sydd am gael gwybodaeth bellach am y swydd i gysylltu â Gwenllian Owen, Uwch-reolwr Addysg Uwch, drwy e-bost at g.owen@colegcymraeg.ac.uk i drefnu trafodaeth anffurfiol.

## Cyfweliadau

Bwriedir cynnal cyfweliadau yn swyddfa’r Coleg yn Nghaerfyrddin ar ddydd Llun, 3 Tachwedd 2025.

Nid yw’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr rhan neu lawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd o iaith (heblaw lle mae’r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer swydd) neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif.

# Swydd ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Ymgynghorydd Strategol (Iechyd a Gofal) |
| **Ystod Cyflog:** | £58,225 (Pwynt sbinol 44) |
| **Lleoliad:** | Aberystwyth, Caernarfon, Caerdydd neu Gaerfyrddin<br>*Mae hyblygrwydd o ran lleoliad fel rhan o'n dull gweithio hybrid* |
| **Statws Cyflogaeth:** | Rhan-amser (0.6 FTE), cyfnod penodol hyd at 31 Ionawr 2027<br>*Mae'r Coleg yn barod i ystyried secondiad ar gyfer y rôl yma* |
| **Atebol i:** | Cyfarwyddwr Addysg Uwch ac Ysgrifennydd |
| **Staff â chyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt:** | 0 |

## Nod Cyffredinol y Swydd

1. **Arwain gweithrediad llwyddiannus Strategaeth Iechyd a Gofal y Coleg a chyfrannu at gynlluniau ehangach o fewn maes cynllunio darpariaeth, staffio, ymchwil a pholisi yn y sector ôl-16.**
2. **Cyfrannu at egwyddorion ac amcanion cyffredinol y Coleg**

# Prif Ddyletswyddau

**1. Arwain gweithrediad llwyddiannus Strategaeth Iechyd a Gofal y Coleg a chyfrannu at gynlluniau ehangach o fewn maes cynllunio darpariaeth, staffio, ymchwil a pholisi yn y sector ôl-16.**

- Cefnogi'r Cyfarwyddwyr a'r Uwch Reolwyr drwy gynnig arbenigedd strategol a chyfrannu at ddatblygu strategaeth academaidd y Coleg ym maes Iechyd a Gofal (yn unol â blaenoriaethau strategol y Coleg) ac i arwain datblygiad hir-dymor y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y maes hwnnw.
- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn cael ei datblygu, ei chynllunio, ei chefnogi ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynyddu'r gweithlu Cymraeg yn y sectorau hyn.
- Dylanwadu ar bolisïau perthnasol, meithrin partneriaethau strategol a chynnal perthynas effeithiol â rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol megis AaGIC (Addysg a Gofal Iechyd Cymru) a Gofal Cymdeithasol Cymru, gan sicrhau cydlyniant strategol rhwng gwaith y Coleg a blaenoriaethau polisi cenedlaethol, effaith a chynnydd parhaus, yn ogystal ag ymateb i anghenion y gweithlu Cymreig.
- Monitro cynnydd ac effaith gweithgareddau'r Coleg yn y maes, gan lunio adroddiadau strategol a chynnig dadansoddiad polisi i lywio penderfyniadau.
- Cyfrannu at weithgareddau a chynlluniau traws-sectorol sy'n cyfrannu at ddatblygu gweithlu gyda lefel uchel o sgiliau Cymraeg.

- Hyrwyddo rhagoriaeth academaidd drwy ddefnyddio ymchwil ac arbenigedd disgyblaethol i lywio cynlluniau strategol a phrosiectau strategol.
- Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer datblygu'r gweithlu yn y sector trydyddol, darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y maes, a chynlluniau ymchwil, yn unol â blaenoriaethau a nodir ym Maniffesto 2026 y Coleg Cymraeg.
- Sicrhau cynllunio, gweithredu a chwblhau prosiectau strategol yn effeithiol, gan dalu sylw i amserlenni, cyllidebau a mesur effaith.
- Meithrin perthnasoedd strategol gyda chydweithwyr o fewn y Coleg ac mewn sefydliadau allanol, er mwyn hwyluso cydweithio traws-sectorol a chydlynu blaenoriaethau.
- Llunio a chyflwyno adroddiadau strategol ar gyfer tîm rheoli a Bwrdd y Coleg a fforymau cenedlaethol.

## 2. Cyfrannu at egwyddorion ac amcanion cyffredinol y Coleg

- Mynychu cyfarfodydd ar ran y Coleg a chyflawni gwaith cysylltiedig ar gais y Prif Weithredwr a'r tîm rheoli.
- Cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau corfforaethol y Coleg yn ôl yr angen e.e Cyfarfod Blynyddol, Eisteddfodau, Noson Wobrau.
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill i'w cytuno gyda'r Rheolwr Llinell.

# Manyleb Person

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar y medrau, y sgiliau, y galluoedd a'r wybodaeth a ganlyn er mwyn cyflawni'r swydd yn effeithiol.

| Meini Prawf | | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|
| **Addysg a hyfforddiant** | Gradd anrhydedd perthnasol neu uwch neu brofiad cyfatebol. | X | |
| | Cymhwyster Galwedigaethol/Proffesiynol arall e.e. Rheoli Prosiect, Dadansoddi Data, Polisi Cyhoeddus. | | X |
| **Sgiliau gwaith** | Profiad o lunio, gwerthuso neu weithredu strategol mewn cyd-destun addysg drydyddol neu sector cyhoeddus. | X | |
| | Medru trefnu, cydlynu a rheoli prosiectau strategol, gan gynnwys y gallu i weithio i derfynau amser tynn. | X | |
| | Sgiliau dadansoddi data a thystiolaeth i lywio penderfyniadau. | X | |
| | Gallu paratoi a chyflwyno adroddiadau, dogfennau polisi ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg. | X | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Mae croeso i chi gyfeirio at unrhyw gymhwyster sy'n profi eich gallu ieithyddol yn y Gymraeg e.e. y Dystysgrif Sgiliau Iaith.* | | |
| | Sgiliau cyfrifiadurol da yn cynnwys sgiliau cronfeydd data, Word, Excel a defnyddio rhaglenni megis SharePoint, neu eraill tebyg. | X | |
| **Nodweddion a sgiliau personol** | Sgiliau cyfathrebu a dylanwadu cryf. | X | |
| | Gallu meithrin perthynas strategol gyda rhanddeiliaid amrywiol. | X | |
| | Ymagwedd broffesiynol, hyblyg ac annibynnol. | X | |
| | Gallu i weithredu'n strategol mewn amgylchedd gwleidyddol sensitif. | X | |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth** | Gwybodaeth am a dealltwriaeth gadarn o'r sector addysg drydyddol a meysydd iechyd a gofal ac ymchwil yn benodol. | X | |
| | Gwybodaeth am a dealltwriaeth dda o waith amrywiol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. | | X |
| | Dealltwriaeth o fframweithiau cyllido a pholisi cenedlaethol (e.e. Medr, | | X |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llywodraeth Cymru, AaGIC) a'u goblygiadau strategol. | | |
| **Profiad** | Profiad o lunio, gwerthuso neu weithredu strategol mewn cyd-destun addysg drydyddol neu sector cyhoeddus. | X | |
| | Profiad o gyfrannu at ymgynghoriadau polisi neu grwpiau strategol cenedlaethol. | X | |
| | Profiad o gydweithio â phartneriaid allanol ar lefel strategol. | X | |
| | Profiad o weithio ar draws sectorau, yn enwedig mewn perthynas â'r maes Iechyd a Gofal. | X | |
| | Profiad o rheoli amser, cynllunio a blaenoriaethu ar gyfer, a chwrdd ag, amserlenni tynn . | X | |
| **Gofynion eraill** | Y gallu i deithio i wahanol leoliadau yng Nghymru | X | |
| | Bydd gofyn fod gennych gyswllt rhyngrwyd addas er mwyn gweithio o gartref fel rhan o'r dull gweithio hybrid | X | |

## Amodau'r Penodiad

Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

1. Mae'r penodiad yn ddarostyngedig i drefniadau Adnoddau Dynol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
2. Penodir ar gyflog o £58,225 (Pwynt sbinol 44).
3. Bydd eich cytundeb cyflogaeth yn gytundeb rhan amser (0.6 FTE) cyfnod penodol hyd at 31 Ionawr 2025 o'r dyddiad cychwyn.
4. Bydd eich cytundeb cyflogaeth yn nodi 21 awr wedi eu contractio bob wythnos.
5. Pennir yr oriau gwaith arferol drwy drefniant â'r rheolwr llinell. Bydd disgwyl, ar adegau, i'r sawl a benodir i weithio y tu allan i'r oriau arferol, lle y bo ymrwymiadau gwaith yn galw am hynny.
6. Bydd hawl i 35 diwrnod o wyliau'r flwyddyn pro rata yn ogystal ag 8 diwrnod o wyliau statudol pro rata a 4 diwrnod o wyliau neilltuol pro rata. Mae'r flwyddyn wyliau o 1 Medi i 31 Awst yn gynwysedig. Rhaid cymryd gwyliau blynyddol ar adegau y cytunir arnynt gan y rheolwr llinell.
7. Bydd deiliad y swydd yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS).
8. Ni chaiff y sawl a benodir ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth neu benodiad arall sy'n galw am gryn dipyn o'i (h)amser neu ei (h)egni heb ganiatâd Prif Weithredwr y Coleg.

9. Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i brawf o’r cymwysterau addysgol a restrir ar y ffurflen gais ynghyd a geirda derbyniol gan y canolwyr a enwir ar y ffurflen gais.

10. Bydd cyfnod prawf o dri mis pryd bydd cyfnod rhybudd o 2 wythnos yn weithredol.

11. Yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus, gellir terfynu'r cytundeb drwy roi rhybudd ysgrifenedig yn unol â’r cytundeb cyflogaeth.